**Adolygiad o Gronfeydd wrth Gefn** **ATODIAD 3**

**Ariannu'r Cynllun Corfforaethol**

Ar 9 Hydref bu i'r Cyngor Llawn gyfarfod i drafod y Cynllun Corfforaethol. Mae'r cofnodion yn nodi:

'Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth unfrydol i'r argymhelliad yn yr adroddiad, a:-

***PENDERFYNWYD** – yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt, bod y Cyngor yn cymeradwyo drafft terfynol Cynllun Corfforaethol 2012-17 i alluogi cyfieithu a chyhoeddi'r ddogfen.'*

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys bwriad uchelgeisiol i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol yn y sir. Mae'r gwariant sy'n cael ei gynnig isod.

| **Prosiect** | **Ariannwyd gan CSDd** | **Nawdd arall** |
|---|---|---|
| Ysgolion 21ain Ganrif | £37 miliwn | £37 miliwn |
| Moderneiddio Addysg | £21 miliwn | |
| Tai Gofal Ychwanegol | £7 miliwn | £14 miliwn |
| Cefndy | £0.5 miliwn | |
| Priffyrdd | £6 miliwn | £4.4 miliwn |
| Economi | £2 filiwn | |
| Moderneiddio | £4 miliwn | |
| **CYFANSWM** | **£77.5 miliwn** | **£55.4 miliwn** |

Mae hyn yn dangos bod ar y Cyngor angen casglu £77.5 miliwn dros y pum mlynedd nesaf i gyrraedd ei uchelgais. Cynigir i wneud hyn mewn 2 ffordd – Arian parod (defnyddio'r cronfeydd wrth gefn, arian dros ben a derbyniadau cyfalaf) a benthyg.


Mae'n amlwg y bydd hon yn dasg fawr gyda'r targed ar gyfer arian parod oddeutu £25 miliwn (traean o'r cyfanswm) a'r targed ar gyfer benthyg yn £52 miliwn (dau draean o'r cyfanswm). Wrth gwrs, bydd yn rhaid talu'r arian a fenthycir yn ôl ac felly mae'n rhaid i'r gyllideb refeniw fod oddeutu £3 miliwn. Fel rhan o gyllideb 2013/24 neilltuodd y Cyngor arian i gynorthwyo â hynny. Bydd yr arian a arbedwyd yn sgil adrefnu ysgolion hefyd yn cael ei ddefnyddio.


Nid yw'r ddau darged yn hawdd i'w cyrraedd ac ni ddylid tynnu sylw'r Cyngor oddi ar ddarparu ei flaenoriaethau. Unwaith mae'r arian yn dechrau cronni, mae'n bosib y gofynnir i ni ei wario ar brosiectau eraill. Fodd bynnag, rydym ni wedi gwneud ein bwriad i weithredu'r cynllun yn glir ac yn gyhoeddus. Os ydym ni'n gwyro oddi wrth hyn, byddai'n rhaid i ni ddweud yn glir a chyhoeddi pam rydym ni wedi newid pethau a pha brosiectau yn y Cynllun Corfforaethol fydd yn cael eu taflu ar y domen.

Mae elfen arian cyfatebol ynghlwm â Phrosiectau Ysgolion 21ain Ganrif, Tai Gofal Ychwanegol a Phriffyrdd. Felly, gan gymryd bod y traean / dau draean yn rhannu – mae £1 arian parod yn caniatáu i ni fenthyg £2 a fydd yn denu £3 mewn arian cyfatebol. Felly,

byddai unrhyw ostyngiad yn y dyraniad ariannol yn golygu y bydd prosiect yn colli gwerth pum gwaith y swm hwnnw.

Mae’r ddau graff isod yn dangos y diffyg presennol mewn arian parod a’r gyllideb i weithredu’r cynllun. Mae’r tabl yn dangos rhaniad tybiannol yr adnoddau presennol ar draws yr elfennau yn y Cynllun Corfforaethol.



| Prosiect | Targed £miliwn | Arian parod £miliwn | Benthyg £miliwn | Cyfanswm £miliwn |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion 21ain Ganrif | 37 | 3.4 | 6 | 9.4 |
| Moderneiddio Addysg | 21 | 1.6 | 0.0 | 1.6 |
| Tai Gofal Ychwanegol | 7 | .4 | 6.0 | 6.4 |
| Cefndy | 0.5 | 0.5 | 0.0 | 0.5 |
| Priffyrdd | 6 | 0.0 | 1.0 | 1.0 |
| Economi | 2 | 0.2 | 0.0 | 0.2 |
| Moderneiddio | 4 | 0.3 | 0.0 | 0.3 |
| CYFANSWM | 77.5 | 6.4 | 13.0 | 19.4 |